


Anwedd a Llwydni

Beth yw anwedd?

Mae gwlybanaeth yn yr awyr drwy'r amser, hyd yn oed pan na allwch chi ei gweld. Os yw'r aer yn oeri, ni all ddal yr holl wlybanaeth ac mae diferion bach o ddŵr yn ymddangos ar arwynebau oer. Byddwch chi wedi sylwi arno pan allwch chi weld eich anadl ar ddiwrnod oer neu os yw'ch drych yn niwlo yn yr ystafell ymolchi neu pan fydd anwedd yn ymddangos ar ffenestri. Mae'n digwydd fel arfer yn ystod tywydd oer ac yn wahanol i fathau eraill o leithder, nid yw'n gadael ôl, fodd bynnag, bydd yn gadael ardaloedd o llwydni, fel y gwelir yn y lluniau ar y dudalen olaf. Chwiliwch amdani mewn corneli, ar ffenestri neu'n agos atyn nhw, y tu mewn i neu y tu ôl i'r dodrefn, cypyrddau ac unrhyw beth a allai fod yn gorffwys neu'n hongian ar waliau fel lluniau. Yn aml mae'n ffurfio ar waliau a/neu mewn manau heb eu cynhesu.



Pam mae gormod o wlybanaeth yn y tŷ?

Yn ystod ein trefn ddyddiol gallwn ychwanegu mwy nag 11 litr (20 pint) o wlybanaeth i aer ein cartrefi, daw hyn o'r canlynol:

- Tân agored gan gynnwys gwresogyddion fflam nwy
- Cael baddon neu gawod
- Defnyddio peiriannau golchi llestri, peiriannau golchi dillad a sychwyr
- Coginio
- Ac anadlu!

Os na all y wlybanaeth hon ddianc bydd yn cronni ac yna pan fydd yr aer llaith yn canfod ei ffordd i fan oer yn y tŷ ac yn dod i gysylltiad ag arwyneb oer bydd yn anweddu (troi'n ddŵr). Gall gwlybanaeth sy'n cael ei chynhyrchu mewn cegin neu ystafell ymolchi gylchredeg o gwmpas y tŷ a gorffwys mewn ystafell oerach fel pyrth neu gynteddau. Mae problemau'n waeth yn y gaeaf pan fydd y lleiaf o awyru ac arwynebau y tu allan ar eu hoeraf.

Gall lleithder ddod hefyd o'r canlynol:

- Lleithder codi* - oherwydd nad oes cwrs atal llaith neu mae'n aneffeithiol
- Teils neu lechi to wedi'u difrodi*
- Rhwystr mewn cafau*
- Pibellau Gwastraff neu orlifo sy'n gollwng*

Yn aml, bydd yr achosion hyn o leithder yn gadael "ôl llinell" neu ag ymyl diffiniedig.

Sut i osgoi anwedd

Mae tri phrif gam y gellir eu defnyddio i helpu i leihau anwedd yn eich cartref:


1. Cynhyrchu llai o wlybaniaeth

- Defnyddiwch gaeadau ar sosbenni a pheidiwch â gadael y tegell yn berwi.
- Osgowch ddefnyddio gwresogyddion paraffin a nwy potel cludadwy heb fflw gan eu bod yn rhoi gormod o wlybaniaeth yn yr awyr.
- Os oes rhaid i chi sychu dillad dan do, sychwch nhw yn yr ystafell ymolchi gyda'r drws ar gau a'r ffenestr ar agor neu gyda'r ffan echdynnu ymlaen.
- Rhowch peiriannau sychu dillad i awyru i'r aer allanol oni bai eu bod o fath hunan-gyddwyso.




2. Awyru i ddileu gwlybaniaeth

- Cadwch ffenestr fach yn gilagored, peiriant awyru ar agor neu ffan ymlaen pan fydd rhywun mewn ystafell.
- Awyrwch geginau ac ystafelloedd ymolchi pan fyddan nhw'n cael eu defnyddio drwy agor ffenestri'n fwy ar led, neu defnyddiwch ffan rheoli lleithder adfer gwres (byddan nhw'n dod ymlaen yn awtomatig pan fydd yr aer yn llaith wrth gadw'r gwres yn yr ystafell)
- Caewch ddrysau cegin ac ystafell ymolchi, hyd yn oed os oes ffan echdynnu. Bydd hyn yn atal gwlybaniaeth ormodol rhag cyrraedd ystafelloedd eraill - yn enwedig ystafelloedd heb eu gwresogi, a fydd yn oerach ac yn fwy tebygol o gael anwedd.



- Awyrwch gypyrddau a chypyrddau dillad - osgoi eu llenwi gan y bydd hyn yn atal yr aer rhag cylchredeg. Torrwch ric awyru yng nghefn pob silff neu defnyddiwch silffoedd ag estyll. Gellir torri tyllau anadlu i mewn i ddrysau ac yng nghefn cypyrddau.



- Ceisiwch osod dodrefn fel cypyrddau dillad a soffas ar y waliau mewnol. Mae dodrefn mawr a/neu ystafelloedd anniben yn lleihau cylchrediad aer.
- Os caiff ffenestri eu disodli, gwnewch yn siŵr bod ganddyn nhw beiriannau awyru diferu wedi'u hymgorffori.
- Bydd dadleithydd yn tynnu'r wlybanaeth felly os yw cynhyrchu gormod o wlybanaeth yn anochel, gallai hyn fod yn ddewis arall a bydd yn sicrhau yn atal y sborau llwydni rhag ffynnu.
- Ar gyfer ateb tŷ cyfan, ystyriwch system awyru mewnbwn positif sy'n cynnwys uned wedi'i gosod yn y llofft sy'n dileu gwlybanaeth ormodol ac yn cylchredeg aer ffres wedi'i hidlo o amgylch y cartref.



3. Lleihau amrywiadau tymheredd rhwng ystafelloedd drwy inswleiddio, atal drafftiau a gwresogi eich cartref

- Yn ystod tywydd oer, gwnewch yn siŵr bod rhywfaint o wres lefel isel ymlaen drwy'r dydd, hyd yn oed pan nad oes neb yn y cartref.
- Cadwch bob rheiddiadur ymlaen, ond gostyngwch y tymheredd drwy ddefnyddio thermostat y rheiddiadur mewn unrhyw ystafelloedd gwag.
- Os ydych yn cael anawsterau gyda chostau gwresogi, ffoniwch ein Tîm Cyngor Ariannol, Ffôn: 01446 709588 / 146 / 312

Gofalwch!



- ⊘ Peidiwch â rhwystro peiriannau awyru sefydlog.
- ⊘ Peidiwch â rhwystro simneiau yn llwyr. Yn hytrach gadewch dwll tua dau fricsen o ran maint a gosodwch rwyll lwfrog drosto.
- ⊘ Peidiwch ag atal awelon mewn ystafelloedd lle mae anwedd neu lwydni.
- ⊘ Peidiwch ag atal awelon mewn ystafell lle mae popty neu wresogydd llosgi tanwydd – e.e. tân nwy.
- ⊘ Peidiwch ag atal awelon ar ffenestri yn y gegin neu'r ystafell ymolchi.

Beth os oes gen i llwydni?

Yn gyntaf, dylech drin neu ddileu unrhyw llwydni sydd gennych yn eich cartref, ac yna ymdrin â'r broblem anwedd sylfaenol. Os gallwch chi osgoi'r anwedd, ni ddylai'r llwydni ailymddangos. I ladd a dileu llwydni, sychwch yr arwynebau dan sylw gyda golchi ffwngladdol sydd â rhif cymeradwyaeth yr awdurdod gweithredol iechyd a diogelwch. Dilynwch yr holl gyfarwyddiadau. Gall tarfu ar llwydni drwy hwfro carpedi a defnyddiau gynyddu'r risg o broblemau anadlu. Gallwch hefyd brynu paent ffwngladdol i helpu i atal llwydni rhag ailymddangos ar arwynebau oer fel waliau sy'n wynebu'r gogledd.

Cofiwch y gallai defnyddio dull rhagweithiol o reoli anwedd, llwydni a lleithder helpu i atal cyflyrau iechyd hirdymor.

Symptomau nodweddiadol anwedd:

